Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llyn Tegid De, Y Bala

**CYMEDROL**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 12km (7.4 milltir)
- Hyd: 5 awr
- Math o daith: Un ffordd

### Cyn i chi gychwyn


Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20220323/2105




O'r Gilfach Goffa, gyda'ch cefn at y ffordd fawr, cerddwch i'r dde ac yna trowch i'r chwith i mewn i bentref Llanuwchllyn. Cerddwch yn syth trwy'r pentref, sydd ychydig dros hanner milltir, ac allan ar yr ochr draw dros bont sy'n croesi Afon Twrch. Dilynwch y ffordd am tua hanner milltir arall, gan gadw golwg am arwydd llwybr cyhoeddus gyda logo'r Parc Cenedlaethol ar ochr dde'r ffordd. Dilynwch yr arwydd sy'n eich cyfeirio ar hyd llwybr i fyny'r bryn am fferm Llechweddystrad. Dilynwch y llwybr sy'n arwain y tu ôl i siediau'r fferm.




Ym mhen uchaf buarth y fferm, ewch dros y gamfa ar y chwith a dilynwch y trac am Dy'n y Rhos. Ewch yn eich blaen dros y cae tuag at Ffridd Gymen. Dilynwch y trac i'r chwith o Ffridd Gymen ac yn y man fe ddowch at dro 90 gradd yn y trac. Dilynwch y trac i'r dde a pheidiwch â dilyn y llwybr cyhoeddus sy'n arwain i lawr am Bentre-piod. Mae'r rhan hon o'r daith yn dilyn llwybr cwrteisi i lawr at fferm Pantymarch ac felly nid yw'n ymddangos ar fap OS.




O Bantymarch, dilynwch drac y fferm am sbel go lew. Ewch heibio'r grid gwartheg a chariwch yn syth yn eich blaen am ychydig eto. Yn y man, fe welwch drac yn arwain i'r dde i fyny'r bryn. Mae'r ffordd yn syth ymlaen yn arwain at bentref Llangower.




Dilynwch y trac i fyny i'r dde ac yna dros y gamfa i'r chwith. Dilynwch y trac at fferm Bryncocyn. Wedi mynd trwy fuarth y fferm, dilynwch y llwybr cyhoeddus i lawr i'r chwith tuag at y coed derw. Dilynwch y llwybr sy'n arwain gyda'r coed. Yn y man, fe welwch bostyn yn eich cyfeirio i lawr i'r dde am yr afon. Dilynwch y llwybr a chroesi'r bont droed. Dilynwch y llwybr ar draws y cae tuag at fferm Tŷ Cerrig. Ewch heibio'r ffermdy sydd ar eic chwith.





Wedi i chi fynd heibio ffermdy Tŷ Cerrig, dilynwch y llwybr sy'n arwain i'r dde rhwng y coed. Yn y man, fe ddowch at ffordd goedwig. Dilynwch y ffordd i lawr i'r chwith a chroesi'r bont cyn ymuno â ffordd wledig. Dilynwch y ffordd wledig i'r chwith am sbel. Wedi i chi fynd heibio Coed yr Allt, dilynwch y trac i fyny i'r dde sy'n arwain at Bant yr Onnen.




Dilynwch yr arwydd sy'n eich cyfeirio y tu cefn i dŷ Bant yr Onnen, ac yna dilynwch y llwybr sy'n arwain i fyny trwy'r coed. Yn y man fe ddewch at gamfa ar eich chwith. Ewch dros y gamfa a dilyn y llwybr (sydd wedi ei farcio â physt melyn) i lawr nes i chi gyrraedd pont droed yn y gwaelod. Ewch dros y bont droed a dilyn y llwybr sy'n arwain am Fryniau Goleu. Dilynwch y llwybr i fyny Bryniau Goleu nes y cyrhaeddwch gamfa yn y pen uchaf.

**7**




O'r gamfa, dilynwch y trac i lawr i'r chwith nes y dewch at ffordd wledig. Dilynwch y ffordd i lawr i'r chwith am ychydig lathenni, ac yna dilynwch y llwybr cyhoeddus i lawr i'r dde drwy'r rhedyn. Dilynwch y llwybr sy'n arwain rhwng Beudy Graienyn a Ffridd Goed, ac yna heibio Graienyn. Yn y man fe gyrhaeddwch Westy Fach Ddeiliog, neu'r 'Bala Lake Hotel,' fel y'i gelwir yn Saesneg.

**8**



Dilynwch y llwybr cyhoeddus sy'n arwain rhwng y gwesty a'r sialeau yn y cefn. Dilynwch y ffordd yn syth ymlaen. Wedi i chi basio hen sgubor wedi ei drosi'n dŷ o'r enw Rhos Fawr ar eich chwith, cadwch olwg am giât sydd o'r golwg yn y gwrych ar y chwith. Ewch trwy'r giât a dilyn y llwybr ar draws dau gae. Ewch trwy'r giât ddu a thros bont rheilffordd Llyn Tegid, ac i lawr at y platfform.

**9**



Ewch allan o'r orsaf drên, croesi'r ffordd, dros y bont, ac yn syth yn eich blaen.

**10**



Ewch yn syth ymlaen, ac yna i'r chwith ar y gyffordd nes y gwelwch lwybr llydan ar yr ochr chwith. Dilynwch y llwybr nes y byddwch wedi cyrraedd yn ôl ym maes parcio blaendraeth Llyn Tegid.